

Cylchlythyr | Circular

Cyllid ymchwil ychwanegol i brifysgolion ym Mlwyddyn Ariannol 2022-2023

Dyddiad: 07 Mawrth 2023
Cyfeirnod: W23/03HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Ymateb erbyn: 14 Mawrth 2023 (cadarnhad o'r angen am gyllid)
28 Ebrill 2023 (cadarnhad o wariant CYAU)
19 Mai 2023 (crynodeb o weithgarwch)
Cyswllt: Enw: Hywel Edwards
Ffôn: 029 2085 9758
E-bost: hywel.edwards@hefcw.ac.uk

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU ei bod yn rhoi cymorth i sector ymchwil ac arloesi'r DU yn ystod yr oedi parhaus gyda negodiadau ar gysylltiad â Horizon Ewrop, mae'r cylchlythyr hwn yn cadarnhau dyraniadau cyllid fformiwla hyblyg (£11,794,300) ac ymgodiad at Gyfalaf Ymchwil Addysg Uwch (£1,143,000) ym mlwyddyn ariannol 2022-23.

Os oes arnoch angen y ddogfen hon
mewn fformat hygyrch arall,
anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Ar 21 Tachwedd 2022, cyhoeddodd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (y mae ei chyfrifoldebau bellach wedi'u hymgorffori'n rhannol yn yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg newydd) becyn o gymorth i sector ymchwil ac arloesi'r DU yn ystod yr oedi parhaus gydag unrhyw benderfyniad ynglŷn â chysylltiad â Horizon Ewrop. Mae'r becyn wedi'i fwriadu i helpu i warchod a sefydlogi'r sector trwy ddarparu buddsoddiad ar unwaith a bydd yn cael ei ddarparu gan UKRI a'r pedwar corff cyllido yn y DU.
2. Mae £12,937,300 o'r cymorth hwn yn cael ei ddsbarthu gan CCAUC i brifysgolion yng Nghymru i fynd i'r afael â blaenoriaethau yn y sector ymchwil, gwarchod capasiti a gallu ymchwil, a darparu sefydlogrwydd cyn penderfyniad terfynol ynglŷn â chysylltiad â Horizon Ewrop.
3. Bydd CCAUC yn dyrannu cyllid trwy ddwy gydran:
 - £11,794,300 mewn cyllid fformiwla hyblyg ychwanegol
 - £1,143,000 mewn cyllid cyfalaf ymchwil ychwanegol a ddarperir trwy'r grant Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch (CYAU)
4. Rhaid i gyllid fod wedi'i neilltuo gan sefydliadau erbyn 31 Mawrth 2023.

Cefndir

5. Roedd cyhoeddiad yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn dynodi bod y cyllid untro hwn wedi'i fwriadu i roi hwb i alluogi prifysgolion i gryfhau galluoedd ymchwil a sylfaen seilwaith ymchwil y DU – er enghraifft, trwy gefnogi staff ymchwil, buddsoddi mewn offer ymchwil hanfodol neu gynnal meysydd ymchwil newydd.
6. Darperir y cyllid hwn ar gyfer sefydliadau addysg uwch i roi cymorth i gadw galluoedd ymchwil ehangach ac i ddarparu sefydlogrwydd cyn penderfyniad terfynol ynglŷn â chysylltiad â Horizon Ewrop. Mae hyn yn cynnwys angori timau sy'n arwain ar ymchwil hirdymor, fentrus, sy'n seiliedig ar chwilfrydedd; neu ddatblygu strategaethau, blaenoriaethau a phartneriaethau ymchwil newydd gyda busnesau ac eraill, i gadw a datblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr ar bob lefel.
7. O ystyried y raddfa amser fer ar gyfer gwariant, rydym yn disgwyl y bydd y ddau llyn o gyllid yn canolbwyntio ar gefnogi ac adeiladu ar weithgareddau sydd eisoes yn mynd rhagddynt (er y gellir defnyddio cyllid i gefnogi gweithgarwch newydd hefyd).

Cyllid fformiwla hyblyg ychwanegol

8. Bydd yr holl brifysgolion sydd wedi cael dyraniad yng nghyllid ymchwil CCAUC ar gyfer 2022/23 (gweler [W22/27HE](#)) yn cael dyraniad cyllid fformiwla hyblyg ychwanegol.

9. Mae'r cyllid wedi'i fwriadu i alluogi sefydliadau i dargedu meysydd blaenoriaeth a chefnogi eu capasiti ymchwil mwyaf tyngedfennol o ganlyniad i effaith yr oedi parhaus gydag unrhyw benderfyniad ynglŷn â chysylltiad â Horizon Ewrop. Dylai sefydliadau ystyried y blaenoriaethau a nodir yn y [Rhaglen Lywodraethu a Blaenoriaethau Ymchwil ac Arloesi Llywodraeth Cymru](#) wrth ystyried sut i ddefnyddio'r cyllid hwn.
10. Mae'r cyllid wedi'i fwriadu i gael ei ddefnyddio'n hyblyg i gefnogi gweithgareddau megis:
- datblygu, cefnogi a helaethu trefniadau cydweithio a phartneriaethau rhyngwladol;
 - datblygu rhwydweithiau a phrofiadau ymchwil rhyngwladol;
 - recriwtio a chadw talent, gan gynnwys yn rhyngwladol ac ar bob cam gyrfa;
 - meithrin capasiti a buddsoddi'n strategol mewn blaenoriaethau ymchwil;
 - sicrhau a chynnal y cyflenwad o dalent a chefnogi gyrfaedd ymchwil;
 - cefnogi ymchwil awyr las a gweithgarwch i fynd ar drywydd syniadau ymchwil newydd;
 - lliniaru diffygion mewn incwm ymchwil oherwydd ansicrwydd ynghylch grantiau ymchwil yr UE;
 - darparu gorbenion neu fuddsoddiad ychwanegol sy'n cefnogi cyllid o ffynonellau eraill.
11. I adlewyrchu'r amrywiaeth o weithgareddau mewn ymchwil a hyfforddiant ymchwil a gyflawnir gan brifysgolion yng Nghymru, mae CCAUC wedi penderfynu dyrannu'r £11,794,300 o gyllid ychwanegol yn gymesur â chyfran prifysgolion unigol o swm eu dyraniadau Ymchwil o Ansawdd (QR) a hyfforddiant Ymchwil Ôl-radd (PGR) ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022/23, fel a nodir yn Nhablau 2a a 2b yn [W22/27HE](#).
12. Caiff dyraniadau cyllid fformiwla ymchwil hyblyg ychwanegol prifysgolion unigol eu nodi yn **Atodiad A**.

Monitro

13. Rhaid i brifysgolion ddarparu crynodeb lefel-uchel, byr (uchafswm o 2 dudalen) yn nodi'r gweithgareddau y mae'r cyllid hwn wedi'u cefnogi a sut y maent yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a nodir uchod.
14. Dylid cyflwyno'r adroddiadau hyn i Dr Hywel Edwards hywel.edwards@hefcw.ac.uk erbyn 19 Mai 2023.

Ymgodiad Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch

15. Bydd yr holl brifysgolion sydd wedi cael dyraniad cyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch (CYAU) ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 (fel a nodir yn [W22/22HE](#)) yn cael dyraniad cyllid cyfalaf ymchwil ychwanegol.

16. Dim ond fel cyfalaf y gellir defnyddio cyllid CYAU a'i ddiben yw cefnogi datblygiad y seilwaith ffisegol sy'n gysylltiedig ag ymchwil, fel a nodir yn W22/22HE.
17. I gyfeirio'r cyllid cyfalaf ymchwil ychwanegol hwn i gefnogi sylfaen seilwaith ymchwil Cymru, bydd CCAUC yn dyrannu £1,143,000 yn ychwanegol fel ymgodiad cymesur i ddyraniadau cyllid CYAU presennol prifysgolion ym mlwyddyn ariannol 2022-23.
18. Mae dyraniadau ymgodiad CYAU prifysgolion unigol wedi'u nodi yn **Atodiad B**.

Monitro

19. Rhaid i brifysgolion gyflwyno crynodeb o weithgarwch a gyllidwyd a chadarnhad o wariant gan ddefnyddio'r templed monitro yn **Atodiad C**. Dylid cyflwyno hwn ochr yn ochr â'r ffurflen cadarnhau gwariant sy'n ofynnol ar gyfer y dyraniad CYAU presennol yn 2022-23, a dylid ei anfon at Meg Hughes, meg.hughes@hefcw.ac.uk erbyn 28 Ebrill 2023.

Amodau'r Cyllid

20. Rhaid i gyllid gael ei neilltuo gan sefydliadau erbyn diwedd mis Mawrth 2023. Gall derbynyddion gyfrif gweithgarwch o 21 Tachwedd 2022 – y dyddiad y cyhoeddodd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol fod y cyllid ar gael – tuag at eu gwariant.
21. Mae'r cyllid a ddyrennir gan CCAUC ar gael yn amodol ar yr amodau cyffredinol ar gyfer talu arian gan CCAUC i Gorff Llywodraethu sefydliad. Caiff y rhain eu nodi yn y [Telerau ac Amodau Cyllid](#) 2022/23.

Derbyn y cyllid

22. Mae CCAUC yn cydnabod y gall rhai prifysgolion ei chael yn her gwario'u dyraniad erbyn diwedd mis Mawrth 2023 fel sy'n ofynnol. Er ein bod yn annog sefydliadau i ystyried sut orau i ddefnyddio'r cyllid i gynnal capasiti ymchwil, rydym yn cynnig y cyfle i optio allan a dewis peidio â chael dyraniad cyllid fformiwla ymchwil hyblyg neu'r ymgodiad i ddyraniadau CYAU neu i gael swm is.
23. Dylai sefydliadau gysylltu â hywel.edwards@hefcw.ac.uk erbyn 14 Mawrth 2023 i dderbyn neu wrthod eu dyraniadau cyllid.
24. Mae'r dyraniadau cyllid a ddangosir yn Atodiadau A a B felly'n rhai dros dro a gallent gael eu cynyddu i sicrhau bod y gyllideb gyfan yn cael ei dyrannu.
25. Bydd taliadau'n cael eu gwneud ym mis Mawrth 2023.

Rhagor o wybodaeth

26. Cysylltwch â Dr Hywel Edwards, Pennaeth Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu, e-bost: hywel.edwards@hefcw.ac.uk

Asesu effaith ein polisïau

27. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu gan ddefnyddio dulliau cyllido presennol sydd wedi cael eu sgrinio'n flaenorol i asesu eu heffaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.

Atodiad A – Dyraniadau cyllid fformiwla ymchwil hyblyg

	Cyllid QR + PGR BI Ac 22/23 (£)	Cyllid fformiwla hyblyg ychwanegol (£)
Prifysgol De Cymru	3,195,420	428,688
Prifysgol Aberystwyth	6,672,052	895,102
Prifysgol Bangor	8,355,227	1,120,911
Prifysgol Caerdydd	49,581,794	6,651,740
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	813,269	109,106
Prifysgol Abertawe	16,618,588	2,229,498
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	2,464,642	330,649
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	213,234	28,607
Cyfanswm	87,914,226	11,794,300

Atodiad B – Dyraniadau Cyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch 2022-23

	Dyraniad Cyllid CYAU 2022-23 (£)	Ymgodiad CYAU (£)	Cyfanswm cyllid CYAU 2022-23 (£)
Prifysgol De Cymru	154,864	26,587	181,451
Prifysgol Aberystwyth	646,369	110,969	757,337
Prifysgol Bangor	582,681	100,035	682,716
Prifysgol Caerdydd	3,548,757	609,251	4,158,008
Prifysgol Abertawe	1,725,056	296,158	2,021,214
Cyfanswm	6,657,726	1,143,000	7,800,726